# Prosiect Gwirfoddoli Strategol Cymru

Gwirfoddoli ar Lefel Bwrdd, Ymddiriedolwr a Rheolaeth yn y Sector Chwaraeon Cymunedol yng Nghymru: Argymhellion ar gyfer meithrin capasiti ac effaith

2025

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

2025

# Cyflwyniad i Brosiect Gwirfoddoli Strategol Cymru

Cyflwynwyd Prosiect Gwirfoddoli Strategol Cymru (WSVP) gan Sported a'i gyllido gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), ac mae'r adroddiad hwn yn amlinellu cyfres o argymhellion yn dilyn cam adolygiad strategol y prosiect.

Y nod ar gyfer WSVP yw gwella capasiti ac effaith gwirfoddoli ar lefel bwrdd, ymddiriedolwr a rheolaeth ar gyfer grwpiau cymunedol ledled Cymru sy'n darparu chwaraeon a gweithgarwch corfforol, ac mae'n cynnwys dau gam:

Mae'r prosiect yn ceisio cefnogi a chysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru. Yn benodol, mae'r prosiect yn canolbwyntio ar sgiliau a datblygiad gwirfoddolwyr (Cymru lewyrchus), sector gwirfoddoli cynhwysol a hygyrch (Cymru sy'n fwy cyfartal), a chymuned wirfoddol sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod cymunedau lleol yn ogystal ag ymwneud â chwaraeon a hamdden (Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu).

1. Deall ac adrodd ar y tirlun gwirfoddoli ar y lefel hon o fewn grwpiau cymunedol yng Nghymru

2. Darparu cyfres o argymhellion i randdeiliaid o fewn y sector ar y ffordd orau o sicrhau cynnydd o'r fath mewn capasiti ac effaith



# Am yr adroddiad hwn

Mae’r adroddiad hwn yn manylu ar ganfyddiadau cam dau o’r prosiect, gan ddarparu datrysiadau ymarferol a chynaliadwy i’r heriau sy’n wynebu gwirfoddoli ar lefel bwrdd, ymddiriedolwr a rheolaeth o fewn chwaraeon cymunedol yng Nghymru. Mae'r datrysiadau hyn yn seiliedig ar ymchwil gadarn a gynhaliwyd gyda grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid strategol ar draws y sector gwirfoddol yn ystod cam cyntaf y WSVP.

Mae’r adroddiad wedi’i strwythuro ar sail pum maes allweddol gwirfoddoli:

- Recriwtio
- Uwchsgilio
- Gwobrwyo a Chydnabod
- Effeithlonrwydd ac Arloesi
- Grymuso Llwybrau i Bobl Ifanc a Grwpiau ar y Cyrion

Mae'r datrysiadau a amlinellir ym mhob maes wedi cael eu dadansoddi yn ôl eu perthnasedd tebygol i'r lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol fel bod y sefydliadau sy'n gweithredu ar y lefelau gwahanol hynny’n gallu gweithredu'r argymhellion yn haws.

# Elfen Gwirfoddoli: Recriwtio

## Datrysiadau Lefel Genedlaethol

1. Datblygu a hyrwyddo cronfa ddata genedlaethol o gyfleoedd gwirfoddoli ar lefel bwrdd, ymddiriedolwr a rheolaeth.

Byddai creu'r gronfa ddata genedlaethol hon yn darparu porthol hygyrch i unigolion ddod o hyd i swyddogaethau a gwneud cais amdanynt, yn ogystal â system ganolog i grwpiau cymunedol hysbysebu'r swyddogaethau hyn yn eu sefydliad.

2. Annog mwy o bwyslais ar fanteision gwirfoddoli ar gyfer datblygiad gyrfa a phersonol.

Gallai tynnu sylw at sut gall gwirfoddoli ar y lefel hon gefnogi datblygiad personol a gyrfa unigolyn, yn ogystal â gwasanaethu cymuned, helpu i ddenu mwy o geisiadau, a cheisiadau ehangach, ar gyfer y swyddogaethau.



# Elfen Gwirfoddoli: Recriwtio

## Datrysiadau Lefel Ranbarthol

1. Cefnogi mwy o gysylltiadau rhwng grwpiau cymunedol a sefydliadau addysgol yn eu rhanbarth, gan gynnwys prifysgolion a cholegau.

Drwy gysylltu myfyrwyr sydd â phrofiad o redeg eu cymdeithasau eu hunain â grwpiau cymunedol sy'n chwilio am unigolion sy'n wybodus ac yn fedrus mewn gwirfoddoli ar lefel pwyllgor, bydd hyn yn helpu i greu llwybrau ar gyfer recriwtio.



## Datrysiadau Lefel Leol

1. Cefnogi grwpiau cymunedol i ddatblygu dulliau recriwtio a chadw sy'n lleihau'r pwysau amser ar aelodau presennol y pwyllgor a'r rhai sydd â diddordeb mewn gwirfoddoli ar y lefel hon.

Gallai'r awgrymiadau ar gyfer hyn gynnwys prosesau recriwtio mwy creadigol ac ysgafnach y tu hwnt i ddim ond cyflwyno CVs ysgrifenedig, darparu mwy o eglurder ynghylch disgrifiadau rôl a chyfrifoldebau, a mwy o bwyslais ar gymorth trosglwyddo drwy brofiad ymarferol o swyddogaethau ymlaen llaw.

2. Datblygu Byrddau Ieuenctid sy'n gweithredu fel sbardunau dysgu i gyfranogwyr symud i bwyllgorau mewn sefydliadau eraill.

Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc ddatblygu sgiliau arwain a phwyllgor y gallant eu datblygu wrth ymgeisio am swyddi gwirfoddol a'u cyflawni.

# Elfen Gwirfoddoli: Uwchsgilio

## Datrysiadau Lefel Genedlaethol

1. Cefnogi rhanddeiliaid cenedlaethol i ddatblygu, hyrwyddo ac ymgysylltu'n weithredol â grwpiau cymunedol gyda phlatfform dysgu ar-lein canolog.

Byddai'r platfform hwn yn canolbwyntio ar dasgau a chyfrifoldebau gwirfoddolwyr ac yn anelu at ddarparu ffordd hygyrch i wirfoddolwyr uwchsgilio yn eu hamser eu hunain. Ar gyfer grwpiau, byddai hefyd yn ffynhonnell ar gyfer templedi ac adnoddau ar gyfer tasgau cyffredin, yn ogystal â chronfa ganolog o ddisgrifiadau rôl i arwain datblygiad a recriwtio.

2. Datblygu uwchsgilio fel rhan greiddiol o brosesau achredu / aelodaeth blynyddol.

Gallai hyn helpu i sicrhau bod sgiliau bwrdd, ymddiriedolwr a rheolaeth yn gyfredol (neu, lle bo angen, eu gwella) drwy ymgysylltu rheolaidd, presennol rhwng grwpiau cymunedol a sefydliadau perthnasol fel cyrff rheoli cenedlaethol.



# Elfen Gwirfoddoli: Uwchsgilio

## Datrysiadau Lefel Ranbarthol

1. Datblygu cynlluniau mentora ar draws rhanbarthau i gefnogi gwirfoddolwyr mewn swyddogaethau bwrdd, ymddiriedolwr a rheolaeth.

Mae'r awgrymiadau ar gyfer hyn yn cynnwys busnesau'n rhannu gwybodaeth ac arbenigedd sy'n berthnasol i wirfoddoli ar lefel pwyllgor, a chyrff rheoli chwaraeon a gweithgarwch corfforol (a'u timau rhanbarthol) yn creu cynlluniau sy'n cefnogi gwirfoddolwyr yn weithredol ar lwybr tuag at wirfoddoli mewn swyddogaethau ar lefel pwyllgor.

## Datrysiadau Lefel Leol

1. Grymuso pobl ifanc i wirfoddoli ar lefel bwrdd, ymddiriedolwr neu reolaeth drwy deilwra cyfleoedd, hyfforddiant a phrofiadau gwirfoddoli i gwrdd â'u profiad bywyd a'u hamgylchiadau yn well.

Bydd datblygu pwyllgorau sy'n canolbwyntio ar ieuenctid a swyddogaethau / portffolios arwain, yn ogystal â darparu cyfleoedd cysgodi iddynt ddysgu ac arsylwi pobl sydd yn y swyddogaethau hyn ar hyn o bryd, yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc adeiladu eu profiad a'u hyder.



# Elfen Gwirfoddoli: Gwobrwyo a Chydnabod

## Datrysiadau Lefel Genedlaethol

1. Gweithio gyda rhanddeiliaid strategol ledled Cymru i greu cymhellion a systemau newydd, neu ehangu'r rhai sy'n bodoli eisoes, sy'n cydnabod, yn gwobrwyo ac yn dathlu gwirfoddolwyr mewn swyddogaethau bwrdd, ymddiriedolwr a rheolaeth.

Gallai'r awgrymiadau gynnwys cyrff rheoli cenedlaethol yn darparu mynediad am ddim neu am bris is i'w digwyddiadau a'u gweithgareddau, rhanddeiliaid cenedlaethol yn codi proffil yr hyn y mae gwirfoddoli ar y lefel hon yn ei olygu drwy ddathlu pwysigrwydd ac effaith y gwirfoddolwyr, a chategori gwobrau cenedlaethol wedi'i neilltuo ar gyfer gwirfoddoli ar lefel bwrdd, ymddiriedolwr a rheolaeth yn y sector cymunedol.



# Elfen Gwirfoddoli: Gwobrwyo a Chydnabod

## Datrysiadau Lefel Ranbarthol

1. Ffrwyno cynlluniau gwirfoddoli corfforaethol o fewn cymunedau i ddarparu capasiti ychwanegol

Gallai unigolion sydd â phrofiad mewn swyddogaethau arwain a phwyllgor neu sydd â sgiliau penodol sy'n berthnasol ac yn angenrheidiol ar gyfer sefydliadau sy'n cael eu harwain gan bwyllgorau, gael eu recriwtio drwy gynlluniau gwirfoddoli sy'n bodoli mewn rhanbarthau ledled Cymru.



## Datrysiadau Lefel Leol

1. Grymuso swyddogaethau ieuenctid sydd â chyfrifoldeb gwirioneddol o fewn amgylchedd derbyniol a chefnogol, fel drwy swyddi gyda phleidlais ar fyrddau i bobl ifanc.

Bydd darparu'r swyddogaethau hyn â chymorth yn rhoi'r profiad a'r cyfrifoldeb i bobl ifanc wneud penderfyniadau, a hefyd yn eu harwain drwy'r prosesau i'w cynorthwyo yn eu datblygiad a'u twf.

2. Cynyddu'r gydnabyddiaeth i'r profiad byw a'r sgiliau mae pobl ifanc yn eu cynnig yn y swyddogaethau hyn y tu hwnt i brofiad mwy traddodiadol yn y swyddfa yn y tymor hwy.

Gall cydnabod a gwerthfawrogi'r sgiliau a'r profiadau y mae pobl ifanc yn eu cynnig lle maent yn wahanol i'r profiadau traddodiadol hynny helpu'r bobl ifanc a'r sefydliadau i dyfu mewn hyder a gwneud cynnydd.

# Elfen Gwirfoddoli: Effeithlonrwydd ac Arloesi

## Datrysiadau Lefel Genedlaethol

1. Gweithio gyda chyrff cenedlaethol i symleiddio'r prosesau gweinyddol a'r gofynion ar gyfer grwpiau cymunedol a'u gwneud yn fwy effeithlon.

Bydd hyn yn rhyddhau capasiti gwirfoddolwyr ar lefel bwrdd, ymddiriedolwr a rheolaeth (yn enwedig ar gyfer grwpiau sy'n aelodau o CRhC) oherwydd bydd yn lleihau'r tasgau sydd wedi'u neilltuo iddynt sy'n ychwanegol at redeg eu grŵp o ddydd i ddydd.

2. Newid iaith a chwmpas swyddi gwirfoddolwyr i annog pobl ifanc i ymgysylltu â hwy.

Drwy wneud teitlau'r swyddogaethau'n fwy apelgar neu eu targedu at bobl ifanc, fel defnyddio'r term 'Llysgenhadon Ifanc' yn lle disgrifyddion rôl mwy ffurfiol, efallai y bydd hyn yn eu hannog i ymgeisio yn hytrach na diystyru eu hunain yn seiliedig ar deitlau a disgrifiadau traddodiadol.



# Elfen Gwirfoddoli: Effeithlonrwydd ac Arloesi

## Datrysiadau Lefel Ranbarthol

1. Creu cynlluniau rhannu capasiti sy'n darparu cyfleoedd i recriwtio gwirfoddolwyr i'r un rôl ar draws sawl sefydliad.

Byddai hyn yn galluogi gwirfoddolwyr i rannu eu harbenigedd yn ehangach a gwneud y defnydd gorau posib o'u capasiti a'u hamser drwy ganolbwyntio ar dasgau / swyddogaethau penodol y mae galw amdanynt ar draws grwpiau.

2. Datblygu cyfleoedd rhwydweithio ar draws rhanbarthau sy'n dod â gwirfoddolwyr mewn swyddogaethau bwrdd, ymddiriedolwr a rheolaeth at ei gilydd

Gall grymuso dysgu ar y cyd a datrys heriau drwy ddod â phwyllgorau a swyddogaethau penodol at ei gilydd i weithredu fel rhwydwaith cefnogi ac arweiniad ddatblygu unigolion a sefydliadau fel ei gilydd drwy rannu gwybodaeth a chydweithredu.

## Datrysiadau Lefel Leol

1. Datblygu ac annog prosesau hygyrch sy’n cyd-fynd â chyfrifoldebau eraill gwirfoddolwyr ac yn cydnabod yr hyn y gall gwirfoddolwyr ei wneud gyda’r amser sydd ganddynt.

Mae camau ymarferol i gefnogi gwirfoddolwyr ar y lefel hon yn cynnwys recriwtio ar gyfer swyddi sy’n ymgysylltu ag amser gwirfoddolwyr mewn camau bach fel bod posib datblygu cyfrifoldebau i gyd-fynd â’r amser sydd ar gael i wirfoddolwyr, a sicrhau bod galwadau a chyfarfodydd mor hygyrch â phosibl drwy amseru hyblyg a defnydd o dechnoleg.

# Elfen Gwirfoddoli:
# Grymuso Llwybrau i Bobl Ifanc a Grwpiau ar y Cyrion

## Datrysiadau Lefel Genedlaethol

1. Annog mwy o bwyslais ar fanteision gwirfoddoli ar gyfer datblygu gyrfa a sgiliau

Helpu'r rhai o grwpiau ar y cyrion i ddeall y gall gwirfoddoli mewn rôl bwrdd, ymddiriedolwr a rheolaeth gefnogi eu datblygiad personol a gyrfaol eu hunain yn ogystal â'r gymuned leol, gan ddarparu sail resymegol bellach iddynt ystyried a gwneud cais am y swyddogaethau hyn.

2. Tynnu sylw at straeon llwyddiant a chreu ymgyrchoedd sy'n arddangos siwrneiau a chyflawniadau unigolion o grwpiau ar y cyrion sydd wedi llwyddo mewn swyddogaethau bwrdd a phwyllgor.

Darparu gwelededd a hyrwyddo'r swyddogaethau hyn fel rhai y gall unigolion mewn grwpiau ar y cyrion eu cyflawni drwy sicrhau bod deunyddiau marchnata, hysbysebion, cynnwys cyfryngau cymdeithasol a fideos hyrwyddo yn cynnwys cynrychiolaeth amrywiol.



# Elfen Gwirfoddoli:
# Grymuso Llwybrau i Bobl Ifanc a Grwpiau ar y Cyrion

## Datrysiadau Lefel Ranbarthol

1. Cefnogi mwy o gysylltiadau rhwng grwpiau cymunedol a sefydliadau addysgol yn eu rhanbarth, gan gynnwys prifysgolion a cholegau, sy'n helpu i ddiwallu anghenion recriwtio gwirfoddolwyr ac anghenion dysgu ar lefel pwyllgor.

Creu llwybrau i unigolion mewn sefydliadau addysgol gael mynediad at gyfleoedd, sydd o fudd iddynt yn eu datblygiad a'u twf, a hefyd cefnogi pobl ifanc mewn grwpiau cymunedol i ddysgu mwy am bwyllgorau a llywodraethu gan bobl sydd tua'r un oedran â hwy.

2. Sefydlu rhaglenni datblygu sydd wedi'u hanelu at unigolion o grwpiau ar y cyrion, gan ymgorffori cymorth i gymheiriaid, mentora a hyfforddiant ffurfiol.
Gall canllawiau a hyfforddiant penodol sydd ar gael i grwpiau ar y cyrion eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ymgymryd â swyddogaethau na fyddent fel arall yn eu hystyried o bosibl.

3. Darparu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a chefnogaeth i aelodau bwrdd a phwyllgor presennol er mwyn pwysleisio pwysigrwydd a manteision amrywiaeth a chynhwysiant yn eu sefydliadau.
Sicrhau bod deiliaid swyddi presennol yn ymwybodol o'r angen a'r ffyrdd o wneud hysbysebu, recriwtio, ymuno a darparu o fewn y swyddogaethau hyn yn hygyrch ac yn apelgar i unigolion o grwpiau ar y cyrion.

4. Sefydlu rhwydweithiau cefnogi cadarn i sicrhau datblygiad parhaus, cefnogaeth, a chadw gwirfoddolwyr bwrdd a phwyllgor amrywiol o fewn y sector chwaraeon. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y recriwtio, y cyfranogiad a'r cymorth yn y swyddogaethau hyn ar gyfer unigolion o grwpiau ar y cyrion yn gynaliadwy, a hefyd yn sicrhau bod y rhai nad ydynt o grwpiau ar y cyrion yn cael eu haddysgu i fod yn ymwybodol o wahanol heriau a phrosesau a allai effeithio ar unigolion o grwpiau ar y cyrion.

# Elfen Gwirfoddoli:
# Grymuso Llwybrau i Bobl Ifanc a Grwpiau ar y Cyrion



## Datrysiadau Lefel Leol

1. Grymuso pobl ifanc i wirfoddoli ar lefel bwrdd, ymddiriedolwr neu reolaeth

Drwy deilwra cyfleoedd, hyfforddiant, a phrofiadau gwirfoddolwyr i ddiwallu eu profiad a'u hamgylchiadau bywyd yn well, gellir cefnogi pobl ifanc i gael mynediad at y swyddogaethau hyn. Gallai hyn gynnwys datblygu pwyllgorau sy'n canolbwyntio ar ieuenctid a swyddogaethau / portffolios arwain sy'n rhoi cyfleoedd i gyfranogwyr iau feithrin profiad a hyder mewn arweinyddiaeth a llywodraethu.

# Diolchiadau

Hoffai awduron yr adroddiad hwn ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser a'u cefnogaeth i'r adroddiad hwn a'r ymchwil sy'n sail iddo.

Rydym yn ddiolchgar iawn i arweinwyr grwpiau cymunedol, staff rhanddeiliaid y sector gwirfoddol a chymunedol, a phobl ifanc a gymerodd ran mewn grwpiau cymunedol ledled Cymru a roddodd o'u hamser i ateb ein cwestiynau ni a thrafod y materion sy'n eu hwynebu hwy a'u grwpiau. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r amser a roddwyd gan aelodau'r tîm, gan gynnwys Ymgynghorwyr Gwirfoddol Sported, a arweiniodd gyfweliadau a grwpiau ffocws.

Yn olaf, bu bwrdd cynghori'r prosiect yn hael wrth adolygu'r ymchwil a'r adroddiad, gan ddarparu cefnogaeth ym mhob cam ar hyd y ffordd. Hoffem ddiolch i'r bwrdd cynghori a'i sefydliadau am ddarparu amser, gwybodaeth ac arbenigedd wrth gefnogi'r prosiect hwn.



Richard Thomas
National Manager - Wales
Rheolwr Cyflawni - Cymru
M: 07775 602164
E: R.thomas@sported.org.uk

Polly Crook
Partnerships Manager
Rheolwr Partneriaethau
M: 07901 339335
E: P.crook@sported.org.uk